# Adroddiad Arolygu

**Caru Evans**

**Llandysul**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/09/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei gofrestru. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy, fodd bynnag mae lleoedd wedi'u hariannu gan Dechrau'n Deg ar gael. |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae gan y plant lais da yn y gwasanaeth hwn. Maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ar eu hanghenion, eu dymuniadau a'u teimladau a gallant wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain. Mae'r plant yn mynegi mwynhad, ac maent yn gartrefol ac wedi setlo. Caiff y plant gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael.

Mae'r gwarchodwr plant yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'i rôl o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n rheoli rhyngweithiadau mewn ffordd garedig a gofalgar. Mae'n darparu rhai gweithgareddau ac mae ganddi amrywiaeth dda o adnoddau sy'n hyrwyddo datblygiad a dysgu'r plant.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae'r safle yn groesawgar ac yn gyfeillgar ac yn darparu lle boddhaol i'r plant chwarae. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o adnoddau sy'n briodol ar gyfer gwahanol oedrannau a chamau datblygiad.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r gwasanaeth yn briodol ac mae system foddhaol ar waith ar gyfer cadw cofnodion. Fodd bynnag, nodwyd meysydd i'w gwella. Mae'r gwarchodwr plant yn deall pwysigrwydd cydweithio â'r rhieni i wneud penderfyniadau am lesiant eu plentyn. Mae wedi meithrin ymddiriedaeth ac yn cyfathrebu'n glir â'r rhieni. Mae ganddi bartneriaethau cadarnhaol iawn â nhw.

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais da. Maent yn cael cyfleoedd cadarnhaol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt, a pha adnoddau yr hoffent eu defnyddio, *'Fi mynd i lliwio wedyn.'* . Maent yn symud yn rhydd rhwng gwahanol weithgareddau. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus yng ngofal y gwarchodwr plant.

Mae'r plant wedi setlo ac yn fodlon eu byd. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r gwarchodwr plant a'i chynorthwyydd. Mae'r plant yn mwynhau eu cwmni ac yn mynd atynt am gysur ac i gael sicrwydd pan fyddant wedi blino. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda drwy ddulliau llafar a dieiriau. Cânt ymateb ar unwaith i'w ceisiadau a'u hawgrymiadau. Er enghraifft, wrth chwarae rôl, mae'r plant yn mynd at y gwarchodwr plant ac yn gofyn iddi gymryd rhan yn y gweithgaredd chwarae rôl, sef paratoi a derbyn prydau o'r gegin chwarae. Ymatebodd y gwarchodwr plant ar unwaith, ac aeth ati i gymryd rhan yn y chwarae.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant, y gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn dda. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda am eu hoedran. Mae ganddynt ddiddordeb brwd yn y cyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt ac maent yn ymgysylltu â'r cyfleoedd hynny. Er enghraifft, roeddent yn rhannu'r adnoddau wrth chwarae â'r cerbydau plastig dan do ac wrth chwarae â'r teganau reidio yn yr awyr agored. Mae gan y plant ymdeimlad o berthyn ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau â'i gilydd. Mae'r plant hŷn yn ofalgar iawn tuag at y plant iau. Gwelsom blentyn hŷn yn rhoi ei flanced i'r plentyn iau pan oedd yn ymddangos ei fod wedi blino.

Mae'r plant yn dangos lefelau ymgysylltu da wrth chwarae a dysgu. Maent yn hyderus wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfeiriedig a hunangyfeiriedig. Yn ystod ein hymweliad, dewisodd y plant chwarae â'r gegin chwarae rôl, y cerbydau plastig, y teganau meddal, y ceir a'r garej yn ogystal â'r teganau reidio. Mae'r plant yn chwarae'n briodol am eu hoedran a'u cam datblygiad, maent yn gwrando ac yn cyd-chwarae, gan rannu adnoddau, negodi a chymryd eu tro. Maent yn dilyn cyfarwyddyd y gwarchodwr plant yn dda. Er enghraifft, wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgaredd crefft.

Mae'r plant yn cael rhai cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad. Er enghraifft, maent yn bwydo eu hunain yn ystod amseroedd bwyd, yn mynd i'r sinc i olchi eu dwylo, yn helpu i dacluso ac i gael gafael ar yr adnoddau. Fodd bynnag, mae annibyniaeth y plant hŷn yn gyfyngedig. Er enghraifft yn ystod amser byrbryd, mae'r gwarchodwr plant yn rhoi popeth iddynt.

**Gofal a Datblygiad** **Digonol**

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r gwarchodwr plant yn hybu iechyd a hylendid y plant mewn ffordd addas. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu byrbrydau yn ogystal â phrydau bach. Mae'n annog y plant iau i olchi eu dwylo cyn bwyta, ac mae sebon hylif a weips gwlyb ar gael, yn ogystal â gris er mwyn i'r plant iau gyrraedd y sinc yn ddiogel. Fodd bynnag, nid yw'r plant hŷn yn cael eu hannog i olchi eu dwylo cyn bwyta ac mae'r plant yn rhannu tywel i sychu eu dwylo. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant yn cael eu parchu wrth newid cewynnau, ond nid yw'r weithdrefn a gaiff ei dilyn yn unol â'r polisi newid cewynnau. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael digon o gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr agored a datblygu eu sgiliau corfforol.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gweithdrefnau glanhau a hylendid addas ar waith, ond nid yw bob amser yn dilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u nodi yn yr asesiadau risg, megis glanhau'r arwynebau cyn paratoi bwyd, defnyddio gwregysau wrth roi plant mewn cadeiriau uchel a defnyddio lliain unigol ar gyfer pob plentyn. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y teganau a'r adnoddau wedi'u storio mewn modd trefnus a bod arwydd gweledol ar gael i'r plant ar y bocsys storio. Mae'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu. Maent yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn neu os bydd honiad yn cael ei wneud. Yn ystod yr ymweliad, roedd tystysgrifau hyfforddiant diogelu a hylendid bwyd y gwarchodwr plant wedi dod i ben.

Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant ac yn rheoli rhyngweithiadau yn gadarnhaol. Mae'n gweithredu fel model rôl cadarnhaol, gan drin y plant â charedigrwydd a gofal. Mae'n canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau er mwyn hybu eu hyder a'u hunan-barch *'O wawsers.'* Mae'n annog y plant i ddweud os gwelwch yn dda a diolch, ac yn eu canmol pan fyddant yn ymddwyn yn gwrtais. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ymddygiad y plant yn dda; gan annog y plant i aros eu tro ac i fod yn garedig wrth eu ffrindiau '*So ni'n shario heddi de?!'* Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn mynd ati, er enghraifft, ar ôl ysgol gofynnodd y plant hŷn iddi a allent gael mwy i'w fwyta.

Mae'r gwarchodwr plant yn helpu'r plant i ddysgu mewn ffordd gadarnhaol. Mae'n wybodus am ddatblygiad plant. Fodd bynnag, nid yw'n cynllunio gweithgareddau nac yn asesu datblygiad y plant mewn modd gweithredol. Dywedodd y gwarchodwr plant wrthym ei bod yn cynllunio'n feddyliol, ond nad yw'n cadw cofnod ysgrifenedig o hyn. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y rhieni yn cael y wybodaeth bwysig ddiweddaraf am amser eu plentyn yn y lleoliad drwy anfon negeseuon a lluniau rheolaidd. Mae'n ymrwymedig i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac mae'n defnyddio'r Gymraeg yn barhaus gyda'r plant. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd dysgu hunangyfeiriedig yn bennaf, lle mae'r plant yn dilyn eu diddordebau drwy ddewis yr adnoddau y maent am eu defnyddio a chwarae gyda nhw.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Mae'n trefnu ac yn ymgymryd ag arferion glanhau rheolaidd, ond nid yw'n cadw cofnod o'r amserlenni glanhau. Mae gan y gwarchodwr plant asesiadau risg addas, ac mae'n cwblhau asesiadau risg gweledol bob dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff profion gwres a phrofion diogelwch rheolaidd eu cynnal. Cawsom gopi o'r dystysgrif ar gyfer gwasanaethu'r boeler yn dilyn yr ymweliad. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r holl ymwelwyr.

Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwelsom nad oedd y gwarchodwr plant yn sicrhau bod y safle yn ddiogel rhag mynediad heb awdurdod, gan fod yr allwedd wedi'i gadael yn nrysau'r patio nad oeddent wedi'u cloi. Fodd bynnag, yn dilyn yr ymweliad, gweithredodd y gwarchodwr plant ar unwaith, gan sicrhau bod yr allwedd wedi'i thynnu o'r drws a'i storio ar lefel uwch. Mae'n cynnal ymarferion tân yn rheolaidd ac yn cadw cofnod priodol ohonynt. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn ddiogel ar gyfer y plant, gan wneud yn siŵr bod y plant yn aros o fewn yr ardal ac yn cael eu goruchwylio'n gyson. Mae hefyd yn sicrhau bod yr ardal awyr agored yn cael ei chynnal a'i chadw a bod yr adnoddau o safon uchel.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd sy'n addas iawn i'r plant. Mae'r safle yn fawr, yn olau, yn groesawgar ac yn drefnus ac mae ystafell chwarae benodedig. Mae'n darparu dewis digonol o deganau ac adnoddau i'r plant, gan gynnwys doliau, cerbydau bach, blociau adeiladu a deunyddiau celf a chrefft i hybu eu sgiliau dychmygol a chreadigol. Mae'r ystafell chwarae yn cynnwys soffa, teledu mawr ar yr wal ac uned storio â bocsys wedi'u labelu sy'n llawn teganau ac adnoddau y mae'n hawdd i'r plant eu cyrraedd. Mae'r amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda i'r plant allu symud yn rhydd ac mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff yr ardal chwarae awyr agored ei defnyddio pan fydd y tywydd yn addas. Gall y plant ofyn am unrhyw adnoddau sy'n cael eu cadw y tu allan i'w cyrraedd, neu bydd y gwarchodwr plant yn eu hestyn allan i'r plant gael gweld beth sydd ar gael iddynt. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant hŷn ddefnyddio'r bwrdd bwyta i fwyta eu prydau neu i wneud gweithgareddau crefft.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y gall y plant gael gafael ar ystod eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar o ansawdd da y tu mewn neu'r tu allan, sy'n briodol ar gyfer oedran y plant. Er enghraifft, toes chwarae, adnoddau chwarae rôl cegin, llyfrau, jig-sos, a deunyddiau creadigol. Mae adnoddau amrywiol ar gael i ennyn diddordeb y plant. Mae ardal chwarae awyr agored sylweddol sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac sy'n cynnig cyfleoedd chwarae addas i'r plant. Er enghraifft, llithren a theganau reidio amrywiol.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
|---|---|

Mae'r gwarchodwr plant yn deall ei rôl ac mae ganddi rywfaint o ddealltwriaeth o'i chyfrifoldebau rheoliadol. Mae llais y plentyn yn rhan greiddiol o'i darpariaeth ac mae'n ymrwymedig i ddarparu gofal o ansawdd da. Mae amrywiaeth o bolisïau gan y gwarchodwr plant sy'n ei galluogi i redeg ei lleoliad yn briodol. Mae'r polisïau yn glir ac yn llawn gwybodaeth, ond nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu. Cafodd y datganiad o ddiben ei ddiweddaru yn ystod y broses arolygu. Fodd bynnag, mae angen ei ddiweddaru ymhellach i gynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Nodwyd hwn fel maes i'w wella, a chaiff ei ystyried yn ystod yr arolygiad nesaf.

Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud yn siŵr bod gan aelodau'r aelwyd, hi ei hun a'i chynorthwyydd wiriadau dilys a chyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Nid oedd pob dogfen ar gael i ddangos tystiolaeth o addasrwydd y cynorthwywyr a oedd wedi'u henwi. Nodwyd hwn fel maes i'w wella, a chaiff ei ystyried yn ystod yr ymweliad arolygu nesaf. Gwnaethom drafod cyfleoedd ffurfiol i oruchwylio ac arfarnu'r cynorthwywyr a'r broses ar gyfer cofnodi'r prosesau hyn â'r gwarchodwr plant. Nid oedd y gwarchodwr plant yn ymwybodol o'r gofyniad hwn. Nodwyd hwn fel maes i'w wella, a chaiff ei ystyried yn ystod yr ymweliad arolygu nesaf.

Roedd y cofnodion a ddarparwyd yn dangos bod y gwarchodwr plant yn casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant cyn iddynt ddod i'r lleoliad, gan ei galluogi i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol y plant. Mae gan y gwarchodwr plant y rhan fwyaf o'r caniatadau priodol gan y rhieni, ond nid oedd caniatadau ar gyfer triniaeth feddygol frys ar gael ganddi ar gyfer y plant yn ystod yr ymweliad. Mae'n cadw cofnodion megis ffurflenni damweiniau, ond nid yw'r rhieni/gofalwyr yn llofnodi pob cofnod. Gwnaethom hefyd drafod trefniadau priodol ar gyfer cofnodi anafiadau sy'n bodoli eisoes â'r gwarchodwr plant. Mae ffurflenni meddyginiaeth priodol ar waith, ond ni roddwyd unrhyw feddyginiaeth hyd yn hyn. Mae'n cadw cofnod priodol o bresenoldeb sy'n nodi amseroedd cyrraedd a gadael y plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn ceisio adborth gan y rhieni a'r plant ac mae'n nodi unrhyw welliannau arfaethedig mewn adroddiad blynyddol ar yr adolygiad o ansawdd y gofal. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth *'Everything is good. I feel well informed and my child is happy here. She is a star'* a *'Can't fault them. I wouldn't be able to work without them. I get plenty of information and an opportunity to share my views annually.'* Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael gwybodaeth reolaidd am ddiwrnod eu plentyn yn y lleoliad. Gwnaethant hefyd ddweud ei bod yn hawdd iawn siarad â'r gwarchodwr plant a'i bod yn barod i helpu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. | Newydd |
| 28 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad oedd ffeiliau staff a oedd yn dangos tystiolaeth o addasrwydd ar gael ar gyfer pob cynorthwyydd. | Newydd |
| 29 | Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio gan nad yw wedi cynnig cyfleoedd goruchwylio ac arfarnu i'r cynorthwywyr. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 8 - Maeth a lles | Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i hybu annibyniaeth y plant ymhellach. |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod arferion hylendid ar waith ar gyfer golchi dwylo, a'r defnydd o dywelion unigol. |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod caniatâd ysgrifenedig ar gael ar gyfer triniaeth feddygol frys. |
| Safon 5 - Cofnodion | Sicrhau bod y rhieni/gofalwyr yn llofnodi pob cofnod ar gyfer damweiniau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes. |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel rhag achosion o fynediad heb awdurdod. |
| Safon 20 – Amddiffyn plant | Sicrhau bod cofnod o anafiadau sy'n bodoli eisoes. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod arferion yn adlewyrchu'r polisïau a'r gweithdrefnau, er enghraifft newid cewynnau, paratoi bwyd a defnyddio cyfarpar yn ddiogel. |
| Sicrhau y caiff cofnod ei gadw sy'n nodi pryd y caiff teganau ac adnoddau eu glanhau a'u sterileiddio. |
| Sicrhau y caiff hyfforddiant diogelu a hyfforddiant hylendid bwyd eu diweddaru. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 29/11/2023